Cymunedau yn Gyntaf Cefn Fforest
11 Medi 2013

Diolch am eich neges e-bost dyddiedig 6 Medi 2013.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) wedi cynnal ymchwiliad i Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Cefn Fforest.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe byddwn yn egluro nad yw Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Cefn Fforest (na Phartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Cwmaman) yn gyrff cyhoeddus a archwilir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac nad ydynt ychwaith yn gwmnïau neu'n elusennau cofrestredig, ac felly, ni chaiff eu cyfrifon eu harchwilio fel un o'r cyrff a archwilir gennym, neu fel y byddai'n digwydd fel arfer yn achos cwmni neu elusen gofrestredig. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau i ardystio hawliadau grant. O ran y ddwy Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf hyn, eu hawdurdod lleol sy'n cael y grant. Yn achos Cefn Fforest, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r awdurdod hwn, ac yn achos Cwmaman, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Rhondda Cynon Taf ydyw. O dan amodau grant Cymunedau yn Gyntaf, mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gwblhau 'datganiad blynyddol o wariant' ('ffurflen CF8') ar gyfer pob un o'u Partneriaethau. Ymdrinnir â'r datganiadau hynny fel rhan o drefniadau arferol yr Archwilydd Cyffredinol i ardystio hawliadau grant. Ni ellid disgrifio gwaith o'r fath yn "ymchwiliad".

Nid oes gennym wybodaeth gofnodedig am y sawl a archwiliodd gyfrifon Côr Meibion Treorci.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips